## RHEOLYDD O BELL

### SUT I CHWARAE:

- Mae'r plant yn dod o hyd i le. Gofynnwch i'r plant pa orchmynion / swyddogaethau / botymau sydd ar reolydd pell ar gyfer chwaraewr DVD?
- Rhowch symudiad sy'n cyd-fynd â phob botwm, megis:
    - Stopio - rhewi
    - Chwarae - mynd
    - Weindio ymlaen - cyflymu
    - Ailweindio - symud yn ôl
    - Bwrw allan - neidio
    - Symud yn araf - arafu'r symudiad

- Mae'r plant yn symud o gwmpas yr ardal, gan wneud yn siŵr eu bod yn ymwybodol o'r plant sydd o'u cwmpas.
- Mae'r athro’n galw’r gorchmynion heb unrhyw drefn benodol. Rhaid i'r plant ymateb yn briodol.

**Dilyniant:**

- Pan fydd yr athro’n dweud ‘Chwarae’, dylen nhw gynnwys symudiad teithio gwahanol fel sgipio, hopian a neidio.
- Cyflymwch y gorchmynion.
- Defnyddiwch orchmynion y gwrthwyneb i’r ystyr, e.e. mae ‘stopio’ yn golygu ‘mynd’.

### Adnoddau

- Argymhellir chwarae cerddoriaeth ar lefel isel iawn nes bod y plant wedi deall y cysyniad. Cerddoriaeth yn y siartiau cyfredol (fersiynau sydd wedi'u golygu ar gyfer y radio).